YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn 2026— Dosbarth y Tonnau

## Bant â ni i gynllunio!




Mae mochyn yn rholi mewn mwd.

Mabli

Ni eisiau mynd i fferm - Pawb

Mae dafad yn hoffi hay.

Lani

Beth mae ceffyl yn bwyta?

Anona

Mae iar mewn nest.

Elis

Where do they sleep?

Mabel

Iar make baby chicks.

Reggie

Mae buwch yn gwneud llaeth i bobl.

Caio

Mae nhw gyd yn byw ar y fferm.

Delyth

Dafad goes 'meee'.

Evie

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn 2026— Dosbarth y Tonnau

Syniad mawr y tymor hwn yw;



## Mw mw, me me, cwac cwac

Pwrpas yr uned ddysgu hon yw i roi cyfle i'r dysgwyr i fod yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas a dechrau dysgu am anifeiliaid, cynnyrch a swyddi ar y fferm. Bydd cyfle i'r dysgwyr i fod yn ymholgar ac i ddatblygu corff o wybodaeth am fywyd ar y fferm trwy brofiadau uniongyrchol. Byddent yn ymchwilio i fywyd ar y fferm a dysgu am y byd amaethyddol. Bydd deall ac ystyried effaith y byd amaeth ar sut yr ydym yn cynyrchu bwyd yn cyfrannu at ddatblygu dinasyddion egwyddorol gwybodus y dyfodol. Ceiff dysgwyr cyfleodd i ddatblygu i fod yn unigolion iach, hyderus trwy blannu hadau er mwyn tyfu llysiau. Ar ddiwedd yr uned ddysgu, bydd cyfle i'r dysgwyr cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth greu llyfr ffeithiol ar y cyd.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd a rhai newydd
- Dewis adnoddau er mwyn creu mygydau anifail y fferm
- Defnyddio adnoddau creadigol yn ddiogel

**Y Dyniaethau**
- Bod yn chwilfrydig am fy ardal leol
- Gofalu am bethau byw a'r amgylchfyd

## Ymweliad i fferm Wiggleys 29/1/26

**Iechyd a Lles**
- Dangos chwilfrydedd
- Mynegi a gwneud penderfyniadau
- Dangos gofal a pharch at eraill.
- Mwynhau gwrando ar lyfrau lles 'ThinkEqual'
- Ymarfer a datblygu fy sgiliau echddygol bras, sgiliau

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Chware rôl yn siop fferm y dosbarth
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Ail ddweud ac actio streon syml
- Gweithgareddau cyn darllen / ysgrifennu, e.e. clywed seiniau, dysgu am rhythm and odl ac ymarfer symudiadau corff cyfan yn barod i ysgrifennu
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Deall bod gwahanol ddulliau o ysgrifennu e.e. ffeithiau disgrifiadau, rhestr.
- Cyflwyno eu gwybodaeth wrth greu llyfr ffeithiol am y fferm

**Mathemateg a Rhifedd**
- Datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif e.e. 5 hwyaden aeth i'r llyn
- Cyfrif, darllen ysgrifennu a threfnu rhifau
- Dysgu cyfrifiadau syml adio a tynnu, dyblu rhifau, darganfon un yn fwy/llai
- Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data
- Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Arsylwi ar anifeiliaid y fferm a gwneud arsylwadau
- Trin anifeiliaid y fferm gymunedol
- Adnabod bod anifeiliaid yn bethau byw sy'n tyfu
- Adnabod ac enwi nifer o anifeiliaid y fferm.
- Siarad am ffyrdd mae ffermwyr yn gofalu am anifeiliaid y fferm
- Arsylwi ar gylch bywyd cywion
- Deall bod ein bwyd yn tyfu ar y fferm
- Plannu hadau a thyfu llysiau
- Defnyddio BEEBOT i gynllunio taith o gwmpas y fferm
- Defnyddio defeisiau digidol i recordio llais